

Cofnodion Cyfarfod 4ydd Ebrill 2017

Yn bresennol :- Y Cadeirydd Y Cynghorydd Elfed Williams, a'r Cynghorwyr, Phyllis Ellis, Rhian Evans, Richard Ll. Jones, Idris Thomas, R. Hefin Williams a Sion Jones

Gweddi: Offrymwyd gair o weddi gan Idris Thomas

1.Ymddiheuriadau. Euryrn Roberts a Jane Pierce

2. Datgan buddiant.

Dim

3. Cofnodion cyfarfod 7fed Fawrth

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

4.Materion o'r cofnodion

Cynllunio Eglwys Santes Helen

Mae cryn drafodaeth o fewn y pentref ynglŷn a'r angen am y fath adeilad. Dywedwyd fod y ddau cynghorydd cymunedol wedi cael swyddog o'r eglwys yn ymweld a hwy ynglŷn a'r cynllun, ac am y gwrthwynebiad gan y cyngor cymuned i'r cynllun. Mae ymweliad wedi bod ar y safle gan y cynghorydd sirol ynghyd a'r archddiacon, y ficer a swyddog o'r eglwys.

Baw Ci

Derbyniwyd llythyr gan Steffan Jones, Cyngor Gwynedd yn cadarnhau ei fod yn fodlon cyfarfod i drafod y mater ymhellach, ond penderfynwyd nad oedd pwrpas oherwydd nad oedd dim mwy i ddweud nac sydd wedi ei ddweud yn barod. Y broblem fwyaf ar hyn o bryd ydi fod pobl yn cerdded eu cŵn drwy'r mynwentydd, ac ddim yn codi y baw wedyn yno. Penderfynwyd fod y clerc i gysylltu yn gofyn os y cawn newid yr arwyddion ar giatiau y mynwentydd i "Ddim Cŵn" yn lle yr arwyddion presennol "cŵn ar denyn".

5. Gohebiaeth a materion eraill

Ad daliad Llwybrau

Derbyniwyd cadarnhad mai swm o £468.01 sydd wedi ei glustnodi i ni eleni gan y cyngor sir yn gyfraniad torri llwybrau categori 1 a 2. Mae hyn yn swm sylweddol llai eto eleni. Bydd y cyngor cymuned fel yr arfer yn gofalu fod y llwybrau yn cael eu trin fel pob blwyddyn arall.

6. Cynllunio

Bron Gwynedd - Mae Cynghorwyr Sirol wedi bod ar ymweliad a'r safle, ond nid oes byth benderfyniad wedi ei wneud. Ni fydd penderfyniad tan o bosib mis Mai.

Ceisiadau Cynllunio a Dderbyniwyd:

5 Tai Glyn Afon, Clwt y Bont – Codi estyniad deulawr cefn.

Tir ger Pant Sardis, Dinorwig – Newid defnydd tir amaethyddol i safle trin carthion, gan osod system carthion, gosod offer a pheiriannau a codi wal garreg a ffens gwrth stoc ynghyd a ail wynebu trac mynedfa breifat. .

Castell Pentir - Rhybydd o flaen llaw i godi adeilad amaethyddol, cywiriad i gais C17/0143/18/YA.

St Teilo, Bethel – Newid defnydd o gartref gofal i un dŷ anedd.

108 Cae Glas, Rhiwlas – Trosi Modurdy presennol yn gofod byw a chodi porth newydd.

7. Cyfrifon

Cyflwynodd y clerc restr cyflawn o'r holl daliadau yn ystod y flwyddyn. Cytunwyd yn unfrydol eu bod yn gywir. Mae amserlen archwilion mewnol ac allanol ynghyd a'r gofynion atodiadau sydd eu hangen eleni wedi dod i law. Bydd y clerc yn paratoi mantolen ariannol ynghyd a chasglu y dogfennau perthnasol fydd eu hangen ar gyfer yr archwiliad mewnol i gyflwyno i'r cyngor fis nesaf.

8. O gwmpas y bwrdd

Grŵp Cynefin - Derbyniwyd yr holiadur a fydd yn cael ei yrru allan gan Grŵp Cynefin ynglyn a'r angen am dai. Mae'r cyngor yn croesawu holiadur o'r fath ac wedi rhoi mewnbwn a chaniatad i hyn. Pwysleisiwyd fod yn rhaid i gynghorwyr annog pobol y pwysigrwydd o lenwi a gyrru yr holiaduron yn ôl.

Efail Castell – Mae yna ysbwriel adeiladu a gwastraff tŷ yng ngardd rhif 2 . Mae perchnogion wrth ymyl wedi gorfod cael adran difa pla oherwydd llygod ddwywaith, ac mae'r broblem dal yn bodoli. Nid oes unrhyw ymdrech yn cael ei wneud i glirio y gwastraff o'r tŷ cyfagos. Oes camau yn cael eu gwneud ynglyn a'r sbwriel gan yr adran difa pla ar ôl eu ymweliad.?

Lôn Perthi – Mae angen ail-wynebu y lôn gan fod dipyn o gŵyno am dyllau mawr arni. Y clerc i yrru llythyr i adran briffyrdd.

Cysgodfan Bws Brynrefail – Y panel oedd wedi malu dal heb ei wneud.

Cysgodfan Bws Stryd Fawr Deiniolen – Panel wedi ei falu yno. Y clerc i gysylltu a'r atgyweiriwr.

